Archwilio Cymru
Audit Wales

Rhaglen Brentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan – Pecyn Gwybodaeth



Croeso gan Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio

Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol

Croeso,

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ennill cyflog wrth ddysgu? Yna rhowch eich gyrfa ar ben ffordd gyda dewis arall yn lle'r brifysgol trwy ymuno â'n **Rhaglen Brentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan.**

Mae Rhaglen Brentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan wedi'i bwriadu ar gyfer y rheiny heb raddau ac fe'i dyluniwyd i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr cyllid. Disgwylir y bydd arweinwyr yn y dyfodol yn wynebu set wahanol iawn o heriau, felly rydym yn cynnig rhaglen ar lefel sylfaen a fydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch.

Caiff y rhaglen ei rhedeg ar y cyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus ledled Cymru a bydd yn eich helpu i ennill cymhwyster cyllid hynod gydnabyddedig y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) wrth i chi weithio i gorff gwarchod y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddwch yn dilyn rhaglen brentisiaeth dros gyfnod penodedig o dair blynedd, gan weithio gyda'n timau ledled Cymru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau archwilio a helpu i graffu ar wasanaethau cyhoeddus a'u gwella.

Eich rôl

Yn ystod eich contract cyflogaeth am gyfnod penodedig o dair blynedd, byddwch yn datblygu sgiliau personol, proffesiynol, ariannol ac archwilio i'ch helpu mewn rolau yn y dyfodol. Byddwch yn datblygu sgiliau wrth eich gwaith yn gweithio mewn gwahanol

dimau, gan roi cymorth gydag archwiliadau ariannol o nifer o wahanol gyrff yn y sector cyhoeddus, megis cynghorau, cyrff y GIG, yr Heddlu a gwasanaethau Tân a mwy.

Bydd prentisiaid hefyd yn cael eu rhyddhau am ddiwrnodau â thâl i astudio ar gyfer cymhwyster ariannol hynod gydnabyddedig y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT). Byddwch yn cael eich annog a'ch cynorthwyo trwy gydol eich prentisiaeth i reoli eich datblygiad personol chi eich hun trwy logiau dysgu ac adolygiadau o gynnydd a bydd eich rhaglen hyfforddiant proffesiynol yn cael ei hategu gan weithdai datblygu sgiliau.

Bydd gennych hefyd fentor a chyfaill a fydd yn eich helpu gyda'ch datblygiad a'ch twf personol. Bydd eich datblygiad proffesiynol yn arbennig o bwysig, gan y disgwylir y bydd y lefel o gyfrifoldeb ac anhawster y gwaith a fydd yn ofynnol gennych yn cynyddu tra pery'r cynllun.

Yn ogystal â hyn, byddwch yn cael y cyfle i gael budd o secondiad mewn corff arall yn y sector cyhoeddus, lle byddwch yn gallu cael gwybodaeth a phrofiad uniongyrchol ehangach o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – cam gwych ymlaen ar gyfer eich gyrfa.

Mae cyrff cyhoeddus wedi'u gwasgaru dros Gymru benbaladr, felly bydd angen i chi fod yn hyblyg ynghylch gweithio mewn lleoliad hybrid, symudol, gan weithio gartref ar rai diwrnodau, a theithio i'r swyddfa neu i safleoedd cleientiaid pan fo angen. Er y byddwn yn ceisio sicrhau eich bod yn gweithio'n agos at y lle yr ydych yn byw, ni allwn warantu hyn. Fodd bynnag, gallwn warantu na fydd unrhyw ddau ddiwrnod yr un fath ac y byddwch yn ymuno â sefydliad sy'n ymrwymedig i gefnogi datblygiad arweinwyr cyllid y dyfodol.

Eich dyfodol

Ar ddiwedd y rhaglen brentisiaeth, yn amodol ar gwblhau cymhwyster yr AAT yn llwyddiannus ac ar berfformiad da, gall prentisiaid gael cynnig y cyfle i ymuno â rhaglen hyfforddiant i raddedigion Archwilio Cymru, ar ôl proses asesu derfynol. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn hyfforddi i ddod yn weithiwr cyfrifyddiaeth proffesiynol cymwysedig gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW).

Pwy ydym ni?

Sefydliad ydym ni sydd â chyrhaeddiad ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, a ninnau'n archwilio gwariant cyhoeddus o ryw £19 biliwn yn flynyddol. Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn rhoi cymorth i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol, ac rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth. Ein diben yw:

- **Sicrhau** pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- **Egluro** sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl
- **Ysbrydoli** a **grymuso'r** sector cyhoeddus yng Nghymru i wella

Gallwch ddarllen rhagor am ein sefydliad a'n gwaith ar gyfer y dyfodol ar ein gwefan a hefyd ein Cynllun Blynyddol.

Mae Archwilio Cymru yn lle hwyliog a chyfeillgar i weithio, gyda diwylliant anhygoel o gefnogol ac un lle'r ydym yn gweithio'n galed i wreiddio ein gwerthoedd a'n hymddygiadau go iawn ym mhopeth a wnawn a'r ffordd yr ydym yn ei wneud. Gallwch ddarllen rhagor am ein gwerthoedd ac ymddygiadau a'n Strategaeth Pobl ar ein gwefan.

Rydym yn cofleidio amrywiaeth yn ei holl ffurfiau ac felly'n croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac â nifer o wahanol sgiliau, profiadau a safbwyntiau. Dyma'r hyn sy'n ein helpu i greu lle GWYCH i weithio a gwneud gwahaniaeth mwy byth trwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud ledled Cymru.

Mae arnom eisiau cryfhau amrywiaeth ein gweithlu yn enwedig o ran pobl sy'n ddu, Asiaidd, neu o leiafrifoedd ethnig eraill, pobl ag anableddau, pobl sy'n ofalwyr a phobl sy'n LGBT+. Cewch wybod mwy am ein dull o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant ar ein gwefan neu drwy ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Yma yn Archwilio Cymru, rydym yn ymroddedig i hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg. Mae un o'n swyddi'n un y mae Cymraeg yn hanfodol ar ei chyfer, felly mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog yn gryf i gyflwyno ceisiadau. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gallu siarad Cymraeg, gan nad yw'n un o'r gofynion ar gyfer y rolau eraill (er y bydd digonedd o gyfleoedd i chi ddysgu, os oes diddordeb gennych!)

Rydym yn ymrwymedig i weithio'n fwy clyfar, mae gennym dechnoleg wych sy'n ein cefnogi, rydym yn meithrin ein sgiliau fel anogwyr i rymuso ac ysbrydoli ein gilydd, ac rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygu parhaus.

Eich buddion

Rydym yn ymfalchïo yn y cyflog a'r buddion yr ydym yn eu cynnig. Mae gennym wythnos waith 35 awr, gyda'n staff yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae gennym lawer o hyblygrwydd i wneud ein gwaith gan ein bod yn gweithredu o fewn amgylchedd gweithio mwy clyfar lle rhoddir blaenoriaeth i ddiwallu anghenion busnes.

Rydym yn cynnig gwyliau blynyddol hael o 33 diwrnod y flwyddyn a gwyliau cyhoeddus a mynediad at bensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae gennym ystod o fuddion ychwanegol megis benthyciadau beicio i'r gwaith ac absenoldeb prynu a gwerthu, sydd yno i gynorthwyo ein staff i daro cydbwysedd rhwng eu bywyd cartref a'u bywyd gwaith. Bwriwch olwg ar ein cyflog a'n buddion eraill i gael dealltwriaeth am ein pecyn gwobrwyo a graddfeydd cyflog.

Os yw'r cyfle hwn yn eich cyffroi a chithau'n meddu ar y sgiliau, y doniau a'r cymhelliant cywir, fe hoffem glywed gennych. Anfonwch neges e-bost i Recriwtio.hyfforddai@archwilio.cymru os hoffech gael sgwrs gyda ni cyn i chi wneud cais.

Pob dymuniad da.

Ann-Marie

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y swydd	Prentis Cyllid
Yn atebol i'r	Rheolwr Archwilio
Lleoliad	Cymru
Band cyflog	Prentis
Symudol	Ie

Swydd-ddisgrifiad

Diben y Swydd

- A chithau'n gweithio fel rhan o dîm cefnogol, byddwch yn rhan o archwiliadau allanol o ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff y GIG a Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau cysylltiedig.
- Byddwch hefyd yn hyfforddi i ennill cymhwyster prentisiaeth cydnabyddedig, gan weithio trwy'r cymhwyster uchel ei barch gan y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) o ddyfarniad lefel 2 i lefel 4.

Prif Ddyletswyddau

- Mynychu a chwblhau cymhwyster yr AAT.
- Cyfleoedd i gael profiad cychwynnol mewn adran gyllid arall yn y sector cyhoeddus trwy secondiad.
- Gwneud gwaith archwilio ar draws ystod o feysydd cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol neu ffurflenni grantiau cyrff yn y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a phrofi cofnodion cyfrifyddu a thrafodion ariannol.
- Cael cymorth i adnabod canfyddiadau a gwneud dyfarniadau wrth ddwyn casgliadau ar eich gwaith, a'r rheiny'n seiliedig ar dystiolaeth ddigonol a phriodol ac yn cydymffurfio â safonau perthnasol.

Swydd-ddisgrifiad

Prif Ddyletswyddau

- Paratoi gwaith sy'n eglur ac wedi'i ddogfennu'n dda, gan ddefnyddio ystod o gymwysiadau meddalwedd, ar gyfer adolygiadau amserol.
- Dangos sgiliau geiriol a gwrando da wrth wneud ymholiadau gyda staff cleientiaid a gweithio o fewn eich tîm archwilio.
- Sicrhau dull wedi'i gynllunio a'i drefnu'n dda o wneud eich gwaith gyda chymorth gan yr Arweinydd Archwilio neu oruchwylydd priodol arall.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad chi eich hun ac ymegnïo i wella'ch sgiliau a'ch gwybodaeth – trin aseiniadau newydd fel cyfle i roi'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu ar waith mewn amgylchedd newydd neu ennill gwybodaeth newydd.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl, a allai gynnwys gwaith archwilio gwerth am arian.

Meysydd Canlyniadau Allweddol

- Cyflawni gweithgareddau archwilio gyda chymorth ar amser, o fewn y gyllideb ac i'r ansawdd disgwyliedig, gyda'r lefel o gyfrifoldeb a chymhlethdod y gwaith sy'n ofynnol gan y prentis yn cynyddu wrth i'r brentisiaeth fynd rhagddi.
- Cwblhau cymhwyster yr AAT yn llwyddiannus o lefel 2 i lefel 4.
- Cyfranogi mewn gweithdai sgiliau, gweithgareddau dysgu gweithredol a digwyddiadau eraill Rhaglen Brentisiaeth Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan, gan sicrhau dull rhagweithiol lle mae dysgu a datblygiad personol yn y cwestiwn.
- Gweithredu fel model rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.

Manyleb y Person	
Gofyniad	**Hanfodol neu Ddymunol**
1. Cymwysterau	
1.1 Safon Uwch gradd C neu uwch mewn tri phwnc neu gymhwyster cyfwerth (Gall ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau ar sail cryfder eu canlyniadau Safon Uwch a ragwelir. Bydd unrhyw gynigion a wneir yn amodol ar ennill y cymwysterau academaidd angenrheidiol)	Hanfodol
1.2 Isafswm o 5 TGAU (Gradd A*-C), gan gynnwys Mathemateg (B)	Hanfodol
2. Sgiliau a galluoedd	
2.1 Sgiliau dadansoddi a sgiliau datrys problemau da	Hanfodol
2.2 Sgiliau digidol, data a thechnoleg da, gyda pharodrwydd a gallu i ddysgu sgiliau a meddalwedd newydd, i gyfathrebu, cydweithio, creu, arloesi, trafod a thrin data'n ddiogel	Hanfodol
2.3 Y gallu i ddyfalbarhau gyda thasgau nes eu bod wedi'u cwblhau'n llawn	Dymunol
2.4 Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da – yn eglur a chryno gyda manwl gywirdeb	Hanfodol
2.5 Yn gweithio'n effeithiol, yn frwdfrydig ac yn ymgysylltiol fel aelod o dîm	Hanfodol

Manyleb y Person	
Gofyniad	**Hanfodol neu Ddymunol**
2. Sgiliau a galluoedd	
2.6 Sgiliau holi a gwrando da	Hanfodol
2.7 Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a phroffesiynol	Dymunol
2.8 Sgiliau rhyngbersonol da – yn gallu datblygu a gweithio'n effeithiol gydag eraill ar bob lefel	Hanfodol
3 Priodoleddau personol	
3.1 Diddordeb mewn dilyn gyrfa gyllid yn y sector cyhoeddus.	Hanfodol
3.2 Brwdfrydig a chryf eich cymhelliant	Hanfodol
3.3 Dull rhagweithiol o wneud eich gwaith gyda pharodrwydd i ddysgu	Hanfodol
3.4 Hyblyg ac yn gallu addasu i flaenoriaethau/heriau newidiol	Dymunol
3.5 Yn gallu gweithredu o'ch pen a'ch pastwn eich hun ond yn gwybod pryd i geisio goruchwyliaeth ac arweiniad gan gydweithwyr	Dymunol
3.6 Yn hyderus wrth weithio gartref gan ddefnyddio TG i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill	Dymunol

Manyleb y Person	
Gofyniad	**Hanfodol neu Ddymunol**
4 Cyffredinol	
4.1 Hunanymwybodol ac yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru	Hanfodol
4.2 Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt	Hanfodol
4.3 Ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch ac ymrwymiad iddynt	Hanfodol

Sgiliau Iaith Gymraeg

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac yn amcanu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer pawb y mae arnynt eisiau ei ddefnyddio. Hoffem felly roi anogaeth arbennig ar gyfer ceisiadau gan unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hwn.

Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol ynteu dymunol. Os byddwch yn llwyddiannus a chithau heb sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd, gallwn roi cymorth i chi ddysgu Cymraeg os ydych yn dymuno.

Mae'r sgiliau iaith Gymraeg canlynol yn ddymunol ar gyfer y rôl hon. Cyfeiriwch at ein matrics sgiliau iaith i gael disgrifiad o'r amryw lefelau sgiliau. Cysylltwch â Swyddfa Archwilio Cymru os hoffech drafod natur y sgiliau iaith Gymraeg.

Maes sgiliau	Hanfodol	Dymunol
Siarad a Gwrando	Cyfarch eraill dros y ffôn neu'n bersonol â chyfarchiad Cymraeg syml a throsglwyddo galwad mewn modd sensitif i siaradwr Cymraeg pan fo'n briodol.	Gwrando ar gyfarfodydd, trafodaethau a galwadau ffôn cyfrwng Cymraeg ar faterion syml, ond cyfrannu yn Saesneg ar gyfer materion mwy technegol a chymhleth.
Darllen	Defnyddio meddalwedd cyfieithu i ddeall gohebiaeth syml gan ddeall ei allu cyfyngedig.	Darllen erthyglau newyddion, adroddiadau byrion a chynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg i ddatblygu gwybodaeth mewn maes.
Ysgrifennu	Diweddaru dogfennau a gohebiaeth â dyddiadau a thermau generig eraill Cymraeg.	Ysgrifennu gohebiaeth syml a chynnwys syml ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg gyda chymorth gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg.

Cyffredinol

Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol, ar bob adeg, o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth a geir wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mewn nifer o achosion, bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau. Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn gorfforaethol neu'n ymwneud â chleient, mewn modd cynnil a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddfwriaeth Diogelu Data (Deddf Diogelu Data 1998 a GDPR y DU) a pholisi'r sefydliad. Ystyrir bod unrhyw achos o dorri cyfrinachedd o'r fath yn dramgwydd disgyblu difrifol, y gellir ei gosbi trwy ddiswyddo a/neu erlyn dan ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Y Ddeddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu Archwilio Cymru.

Cydraddoldeb

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i hybu cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Ceir naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru yn ymrwymedig i sicrhau nad yw'r un ymgeisydd am swydd na chyflogai'n cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau uchod. I'r perwyl hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae pob cyflogai'n gyfrifol am gyfrannu at ei lwyddiant.

Iechyd a Diogelwch

Mae gan holl gyflogeion y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol hwy eu hunain a diogelwch personol eraill y gall eu gweithredoedd neu hepgoriadau effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â'r rheolwyr i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd ymlynu wrth bolisïau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch a pholisïau cysylltiedig y sefydliad.

Cyffredinol
Gwiriadau Diogelwch
Rhaid i'r holl gyflogeion gael gwiriadau diogelwch cychwynnol fel rhan o'u camau gwirio cyn cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys profi pwy ydynt a phrawf o'u cymwysterau. Yn ogystal, rhaid i'r holl staff symudol gael eu fetio o safbwynt diogelwch i lefel ddiogelwch CTC (gwiriad gwrthderfysgaeth).
Urddas yn y Gwaith
Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n mynd ati'n weithredol i geisio hybu gweithle lle mae cyflogeion yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch heb ragfarn. Gofynnir i'r holl staff roi gwybod i'w Rheolwr Llinell neu unrhyw un o Gyfarwyddwyr y sefydliad am unrhyw fath o fwlio neu aflonyddu. Ni chaiff unrhyw ymddygiad amhriodol y tu mewn i'r gweithle ei oddef a chaiff ei drin fel mater difrifol o dan bolisi Urddas yn y Gwaith Archwilio Cymru.

Cyllid a Chymhwystra ar gyfer y Brentisiaeth

Datblygwyd y Rhaglen Brentisiaeth hon fel dewis arall i'r rhai heb radd a chanddynt ddiddordeb mewn gyrfa ym maes cyllid allu hyfforddi trwy'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu i ddod yn weithiwr cyllid proffesiynol cymwysedig. Bydd y Rhaglen Brentisiaeth hon yn cael cymorth ar ffurf cyllid trwy Fframwaith Prentisiaeth Llywodraeth Cymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymwysterau prentisiaeth lle mae unigolyn eisoes yn meddu ar gymhwyster o'r un math, cynnwys a lefel (neu lefel uwch). Yn unol â hynny, nid yw unigolyn sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster cyllid neu gyfrifyddu ar lefel 4 (neu uwch) yn gymwys i wneud cais i ddilyn y Rhaglen hon. Mae enghreifftiau o gymwysterau o'r fath yn cynnwys AAT lefel 4; gradd, HNC neu HND mewn cyfrifyddiaeth; neu gymhwyster cyfrifyddu lefel uwch a ddyfarnwyd gan un o'r sefydliadau cyfrifyddu. Yn yr un modd, gan bod y brentisiaeth hon wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai heb unrhyw gymwysterau cyllid blaenorol, nid yw darpar ymgeiswyr sy'n meddu ar naill ai AAT lefel 2 neu AAT lefel 3 yn gymwys i wneud cais.

Fodd bynnag, pe bai'r brentisiaeth yn galluogi'r unigolyn i gaffael sgiliau newydd sylweddol, a phe bai'n amlwg bod cynnwys y cymhwyster yn wahanol o ran sylwedd i unrhyw gymhwyster blaenorol, yna gallai prentisiaeth o'r fath fod yn gymwys ar gyfer cyllid.

Pe bai cymhwyster blaenorol yn cynnwys rhai elfennau cyllid neu gyfrifyddiaeth ar lefel 4 neu uwch, ond bod hwnnw ddim yn gymhwyster cyllid na chyfrifyddu yn unig, byddai angen i gymwysterau o'r fath gael eu hystyried ar gyfer cymhwystra fesul achos unigol.

Byddai disgwyl i gymwysterau mewn pynciau rhifyddol eang, fel mathemateg ac ystadegau ateb y gofynion o ran cymhwystra.

Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i wneud cais i ddilyn y Rhaglen hon cysylltwch â Recriwtio.hyfforddai@archwilio.cymru gan nodi'n glir pa gymwysterau yr ydych yn meddu arnynt yn barod.

Sylwer nad yw'r arweiniad a roddir uchod yn ystyried pob math o amgylchiadau a bod Archwilio Cymru yn cadw'r hawl i wrthod cais lle mae o'r farn nad yw unrhyw feini prawf cymhwystra wedi cael eu bodloni.

Sut i ymgeisio

Dim ond trwy ein porth ar-lein yr ydym yn derbyn ceisiadau; nid ydym yn derbyn CVs, ond os oes arnoch angen i ni ystyried addasiad rhesymol, rhowch wybod i ni mewn da bryd os gwelwch yn dda.

Wrth gwblhau eich cais

Ymgyfarwyddwch â'r Swydd-disgrifiad a Manyleb y Person, fel eich bod yn deall y rôl a beth yw'r cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl prentis.

Rydym yn edrych sut y mae eich astudiaethau a/neu brofiad blaenorol mewn gwaith neu eich diddordebau y tu allan i'r gwaith yn eich gwneud yn addas i ddechrau gyrfa fel prentis AAT. Sicrhewch eich bod yn cynnwys tystiolaeth o'r canlynol:

- Bod eich cymwysterau cyfredol yn cyrraedd y safon addysgol isaf sy'n ofynnol
- Yn eich Datganiad Personol mae arnom eisiau dod i wybod amdanoch chi, pam fod gennych ddiddordeb mewn dilyn prentisiaeth cyllid a pha sgiliau, profiadau neu ymddygiadau sydd gennych a fyddai'n eich gwneud yn addas ar gyfer y rôl yn eich tyb chi

Sylwer – bydd y ffurflen gais yn cael ei defnyddio i asesu'r holl ymgeiswyr. Gallai methu â chwblhau'r ffurflen gais yn fanwl achosi i'ch cais beidio â mynd ymlaen i'r cam asesu.

Canolfan Asesu

Yn y ganolfan asesu byddwch yn cael cyfweliad a phrawf meddwl yn feirniadol. Bydd rhagor o wybodaeth am y cam hwn yn cael ei darparu'n nes at yr amser.

Dim ond os byddwch yn cymryd rhan mewn canolfan asesu y rhoddir adborth.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein Rhaglen Brentisiaeth, y broses ddethol, os oes gennych unrhyw ofynion penodol, neu os yw unrhyw beth yn y pecyn hwn yn aneglur, anfonwch neges e-bost i Recriwtio.hyfforddai@archwilio.cymru